

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y cyfarfod:	8 Gorffennaf 2021
Aelod Arweiniol	Y Cynghorydd Bobby Feeley
Awdur yr Adroddiad:	Phil Gilroy a Helen Wilkinson
Teitl	Gwasanaethau Methiant y Galon BIPBC yn Sir Ddinbych a'i effaith ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Roedd aelod etholedig yng Nghyngor Sir Ddinbych wedi awgrymu y byddai newid mewn Gwasanaethau Methiant y Galon ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar awdurdodau lleol trwy alw cynyddol am wasanaethau gofal cymunedol. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd na fu unrhyw newidiadau negyddol o fewn y gwasanaeth a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth ar statws cyfredol Gwasanaethau Methiant y Galon BIPBC a ddarperir yn Sir Ddinbych a ledled Gogledd Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- 3.1 nodi cynnwys yr adroddiad; a
- 3.2 ystyried a thrafod unrhyw oblygiadau posib i dinasyddion Sir Ddinbych gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a swyddogion y Cyngor.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Roedd gan rai agweddau ar Wasanaeth Methiant y Galon BIPBC ffynonellau ariannu dros dro yn gysylltiedig â hwy; deallwn fod hyn wedi achosi rhywfaint o ansicrwydd i'r cyhoedd ynghylch darpariaeth y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. **Roedd arian ar gyfer y gwasanaeth hwn ar gael gan y Bwrdd Iechyd o Ebrill 2020.**
- 4.2. Mae BIPBC yn cydnabod gwerth Gwasanaethau Methiant y Galon ledled Gogledd Cymru, ac yn parhau i gefnogi eu datblygiad heb unrhyw gynlluniau i leihau'r ddarpariaeth bresennol.
- 4.3. Mae BIPBC yn gweithio gyda'r gwasanaethau er mwyn i ni barhau i sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn parhau i fod ar gael i boblogaeth Gogledd Cymru. Rydym yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cyfartal i Ogledd Cymru, gan gynnwys Sir Ddinbych.
- 4.4. Mae Rheolwr Strategol Gwasanaethau'r Galon yn gweithio gyda'r timau Methiant y Galon i ddiogelu'r Gwasanaeth Methiant y Galon a sicrhau cynllunio ar gyfer olyniaeth, gofal iechyd yn seiliedig ar werth a Mesurau Canlyniadau sy'n ymwneud â'r Claf.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Mae darpariaeth Gwasanaethau'r Galon yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol sy'n ymwneud â gweithio gyda phobl a chymunedau i ddatblygu annibyniaeth a gwytnwch gan ei fod yn hyrwyddo iechyd a lles pobl.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Nid oes unrhyw newidiadau wedi eu cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Methiant y Galon ac felly ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar gyllidebau neu wasanaethau'r Cyngor.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Nid oes unrhyw newidiadau wedi eu cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Methiant y Galon ac felly nid oes angen asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau gan nad oes unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol gan nad oes unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar gyllidebau'r Cyngor.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes yna unrhyw beryglon yn codi o'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adran 7.4.2(e) Cyfansoddiad y Cyngor